**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Tachwedd 23ain 2015 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley (cadeirydd), Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Colin Hughes (cyrhaeddodd 7.44pm), Colin L Hughes (cyrhaeddodd 6.39pm), Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood, Catherine Jones (cyrhaeddodd 7.49pm), Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Rob Parkes, Catherine Jones (hwyr), Colin Hughes (hwyr).

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**120. Cynllunio CSDd - adrodd yn ôl ar yr ymgynghoriad ar gyfer briff datblygu y Brwcws**. Croesawodd y cadeirydd Angela Loftus a Claire Macfarlane o'r adran cynllunio a gwahoddodd y ddwy i annerch y cyfarfod. Dywedodd Angela Loftus y byddai'n cyflwyno adroddiad byr yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus oedd wedi rhedeg am 13 wythnos a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau galw heibio. Derbyniwyd pump o ymatebion ysgrifenedig gan gynnwys yr un oddi wrth y cyngor tref. Cofnodwyd 300 o sylwadau yn y digwyddiadau galw heibio. Bydd pob sylw yn cael ei gyfleu yn ôl i'r cynghorwyr sir. Roedd rhan fwyaf o'r ymatebion ddim eisiau datblygiad am y rhesymau canlynol - di angen, lleoliad anghywir, colled caeau gwyrdd a thir amaethyddol, priffyrdd, parcio ar y ffordd, isadeiledd yn gyffredinol, risg llifogydd, effaith ar fioamrywiaeth, yr iaith Gymraeg, treftadaeth. Derbyniwyd sylwadau hefyd ar sut y gellir gwella'r briff. Roedd nifer o blaid tai fforddiadwy a thai unllawr yn cael eu hadeiladu. Gwarchod llwybrau cerdded, coridorau i fywyd gwyllt, dylunio i ategu treftadaeth, parcio ar gyfer y Capel a'r Eglwys oedd sylwadau eraill a dderbyniwyd.
Beth oedd y cam nesaf - i gydnabod yr holl sylwadau, i logio a chofnodi ac adrodd yn ôl i grŵp llywio'r cyngor ym mis Ionawr 2016. O flaen y pwyllgor cynllunio ym mis Chwefror 2016. I gyfarfod a'r holl drigolion lleol i drafod unrhyw newidiadau i'r briff. I adrodd yn ôl yr holl sylwadau a wneir. Bydd yr holl sylwadau ar gael i'w gweld.
Ymatebodd Angela Loftus i sylwadau a chwestiynau'r aelodau ar: (1) cyfarfod gyda'r trigolion cyn y CDLl; (2) wedi synnu fod sylwadau cefnogol wedi eu derbyn; (3) drwg deimlad ac nad oedd y cyngor sir yn gwrando - nid oedd yr ymgynghoriad yn mynd i wneud gwahaniaeth - pam fod y cyngor sir am godi tai mewn lle nad oedd neb ei eisiau; (4) roedd nifer o ddatblygiadau yn Ninbych yn y gorffennol wedi eu hadeiladu ar gaeau gwyrdd; (5) lle'r oedd y cyfan i orffen; (6) yr angen i gael agenda a gytunwyd pan yn cyfarfod a'r trigolion; (7) datblygu cyn safle Ysbyty Gogledd Cymru; (8) adeiladu ar orlifdir a bywyd gwyllt; (9) ddim yn dda i economi stryd fawr Dinbych; (10) dim llwybr cerdded diogel i'r ysgolion; (11) y ffordd ddim yn addas i drafnidiaeth ychwanegol; (12) y datblygiad yn peryglu adeiladau presennol; (13) y cynnig yn dweud "dim bwys"; (14) y trigolion ddim yn rhan o adolygu'r CDLl; (15) difetha ardal hynod brydferth; (16) sut oedd y cyngor sir yn penderfynu pan oedd y tir ym mherchnogaeth rhai eraill; (17) gwasanaethau gofal cychwynnol ac eilaidd.
Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am y diweddariad.
Diolchodd y cadeirydd i'r ddau swyddog am eu presenoldeb ac aeth ymlaen i ddweud ei bod hi'n amser hanodd i bawb - roedd dal frwydr ar ein dwylo - nid oedd eisiau'r datblygiad.

**121. CSDd - cyflwyniad ar ddyfodol gwasanaethau darpar mewnol.** Croesawodd y cadeirydd Anne Hughes-Jones and Holly Evans a gwahoddodd y ddwy i annerch y cyfarfod. Cafwyd y cefndir a'r sefyllfa ar hyn o bryd gan Anne Hughes-Jones. Dechreuodd y broses drwy ofyn barn y rhai a effeithiwyd a'u teuluoedd. Syniadau yw'r rhain a ddatblygodd drwy'r sgyrsiau hynny. Bu gweithwyr cymdeithasol annibynnol yn siarad â rhai oedd yn derbyn gofal a'u teuluoedd a chasglwyd gwybodaeth ar sut fyddai unrhyw newidiadau yn effeithio arnynt. Roedd y canlyniadau yn sail ar gyfer yr ymgynghoriad ar y tri opsiwn a roddwyd ymlaen mewn pedwar lleoliad o fewn y sir. Y trydydd opsiwn oedd gwahodd sylwadau oddi wrth eraill fel cynghorwyr tref.

Aeth y cyfarfod ymlaen i drafod Dolwen yn arbennig ac arweiniwyd yr aelodau drwy'r opsiynau oedd ar gael.
Dywedodd y cadeirydd y byddai Dolwen yn dathlu 50 mlynedd yn 2016. Mynegodd y cadeirydd ei bryder ynglŷn â'r ymosodiadau a wnaed arno yn bersonol ar lafar ac ar y rhwydwaith cymdeithasol. Aeth y cadeirydd ymlaen i ddweud y byddai'n hoffi i Ddolwen barhau yn agored ar sail 50/50, gwlâu preswyl a chyfleusterau ar gyfer rhai yn dioddef gyda dementia.
Ymatebodd y ddau swyddog i sylwadau a chwestiynau'r aelodau ar: (1) yr angen i gadw Dolwen yn agored; (2) yr opsiwn i breifateiddio, cau neu'r trydydd opsiwn; (3) byddai preifateiddio yn gwarantu y byddai Dolwen yn parhau'n agored; (4) llawer o wrthwynebiadau yn lleol i'r newidiadau; (5) trydydd opsiwn a'r status quo a'r gwrthwynebiadau i'r opsiynau eraill; (6) yr angen i bobl aros yn Nolwen; (7) galw am gyfleusterau; (8) cydweithfa gweithwyr; (9) fformiwla poblogaeth yn erbyn galw ac angen; (10) costau wythnosol isel os byddai Dolwen yn llawn; (11) drwgdybiaeth o'r sector breifat; (12) gofal nyrsio yn Nolwen; (13) materion ariannu preifat / cyhoeddus; (14) problemau gyda dementia; (15) parch lleol i Ddolwen; (16) anawsterau ariannu lleoliadau tebyg; (17) perchnogaeth yr adeilad a pherchnogaeth y cyfleusterau; (18) y galw am ofal ac aml-ddefnydd o'r adeilad; (19) ymateb y staff i'r cynigion; (20) effaith newidiadau ar yr henoed.
Dywedodd y cadeirydd fod mis o'r cyfnod ymgynghoriad ar ôl. Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cyfarfod ac yn gwneud argymhellion i'r swyddogion - hyn i'w ddilyn gyda phenderfyniad y cabinet ar Ebrill 26ain 2016.
Bu i nifer o'r aelodau yn ystod y drafodaeth gefnogi sylwadau'r cadeirydd.
Diolchodd y cadeirydd i'r ddau swyddog am eu presenoldeb a bod y ddadl wedi bod yn un da.

**122.** **Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**123.** **Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Colin Hughes - personol - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(2) Cyng Raymond Bartley - personol - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.

**124.** **Derbyniwyd a chymeradwywyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Hydref 26ain 2015 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Dachwedd 9fed 2015.**

**125.** **Materion yn codi:** 26.10.15: Cofnod 114 - Gwneud Dinbych yn Hardd - gofynnodd y cadeirydd a chytunwyd fod hwn yn eitem agenda ar gyfarfod mis Ionawr o bwyllgor amgylchedd a chyllid.

9.11.15: Cofnod 116 - Goleuadau Nadolig. Dywedodd y Cyng Colin Hughes fod gormod o rai yn ymglymedig a'r goeden Nadolig - dywedodd y Cyng Catherine Jones mewn ateb fod yr hyn a ymddangosodd ar Facebook yn anghywir - roedd yr holl faterion bellach mewn llaw. Aeth y Cyng Hughes ymlaen i ddweud fod sylwadau ar Facebook yn lladd ar y cyngor tref - roedd yn amlwg nad oedd pobl yn darllen y datganiad i'r wasg a baratowyd gan y cyngor - roedd yr ateb yn y datganiad i'r wasg.

**126.** **Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd a nodwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer.
Dywedodd y Maer ei bod hi wedi bod yn wythnosau prysur gyda'r uchafbwynt yn cyfarfod a Dug a Duges Caergrawnt ar eu hymwelid a Men's Shed Dinbych. Roedd yr wythnosau i ddod yn rhai prysur.

**127.** **Llythyrau a Hysbysiadau:** 1. Cytunwyd i nodi dwy eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Nodwyd yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Ray Stobbart ynglŷn â muriau terfyn o amgylch cyn Ysbyty Gogledd Cymru. Hefyd, nodwyd e-bost oddi wrth Phil Ebbrell. Cytunwyd i yrru copi o e-bost Phil Ebbrell i Mr Stobbart.
(2) Nodwyd yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Clwyd Wynne. Cytunwyd i drefnu ymweliad a'r archif gymunedol yn y Flwyddyn Newydd. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod gan y grŵp nifer o syniadau ar sut i wneud y grŵp yn fwy hunan gyllido.
(3) Nodwyd a thrafodwyd yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Ben Wilcox-Jones ynglŷn â Phwll y Grawys. Dywedodd clerc y dref fod yna bosibilrwydd fod Croes y Dref yn rhy fawr o lawer i'w hail osod ger y Pantri ar y Stryd Fawr. Cytunwyd y dylid trafod hyn ymhellach. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i agor trafodaethau gyda CSDd ynglŷn â'r posibilrwydd o ail osod Croes y Dref yn yr ardal werdd ar Stryd Henllan ger Eglwys y Santes Fair.** Ynglŷn ag ail baragraff yr e-bost ynghylch llwybrau cerddwyr, **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i wneud cais i gynnal archwiliad diogelwch ym Mhwll y Grawys.**
(4) Nodwyd yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth y Cyng Colin Hughes ynglŷn â tân gwyllt a'r sylwadau i'w hystyried gan weithgor Tân Gwyllt.
(5) CSDd - bwriad i ymestyn ffin cyflymder 30 m.y.a. ar Ffordd Eglwyswen - **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i gefnogi'r bwriad.**
(6) Nodwyd yr e-bost oddi wrth y Cynghorydd Shereen Devine yn datgan ei dymuniad i ymddiswyddo o'r cyngor tref. Cytunwyd i yrru llythyr i'r Cyng Devine. Eglurodd clerc y dref y byddai'r ymddiswyddiad yn cael ei yrru ymlaen i GSDd a bydd angen cyhoeddi'r sedd wag drwy hysbyseb yn y Ward Isaf.
(7) Llythyr yn diolch oddi wrth Jean Gwynn ar ran Cymdeithas Hanes Lleol Dinbych yn diolch am y gefnogaeth i brynu hen luniau anghyffredin o Ddinbych mewn arwerthiant yn ddiweddar. Cytunwyd i roddi awdurdod i glerc y dref dalu'r dderbynneb pan ddaw o'r arwerthwyr.

**128. Cynllunio**: 1. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r mater canlynol:

(1) Myddelton College, Stryd y Parc - tystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol o'r adeiladau fel ysgol breswyl.

2. Materion cynllunio eraill: Nid oedd unrhyw fater arall.

**129. Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor.** (1) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Dachwedd 16eg 2015.
(2) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Dachwedd 17eg 2015.

**130. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor:** Nid oedd unrhyw gofnod / adroddiad.

**131. Adroddiadau**: (1) <u>Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(2) <u>CCTCGC.</u> Cafwyd adroddiad gan y Cyng Raymond Bartley ar gyfarfod a fynychwyd gan nifer dda. Etholwyd clerc y dref yn gadeirydd am flwyddyn arall. Ni safodd y Cyng Colin Hughes i'w ail ethol fel ysgrifennydd - etholwyd clerc y dref Conwy. Diolchodd y Cyng Bartley i'r ddau am eu gwaith fel cadeirydd ac ysgrifennydd. Cafwyd cyflwyniad da gan Cadw. Gohiriwyd ethol trysorydd tan y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth. Cytunwyd i wahodd Liam Mannix o'r Irish walled Towns Network drosodd i gyfarfod arbennig o'r ddolen i drafod dogfen a dderbyniwyd oddi wrth Trefi Caerog Gwyddelig ac i ymchwilio i mewn i unrhyw gydweithrediad gyda'r rhwydwaith Gwyddelig yn y dyfodol - hefyd i wahodd Cadw. Cytunwyd ar welliannau i gyfansoddiad y ddolen .

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**132. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Dywedodd y Cyng. Colin Hughes ei fod yn brysur gydag un neu ddau o broblemau yn y Ward Uchaf.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley: (1) ei fod yn delio a phroblemau unigol yn Ninbych Isaf. (2) Cyn safle Kwik Save - roedd popeth yn dod at ei gilydd ynglŷn â safle Aldi - problemau a'r ffyrdd yn cael eu datrys ac yn disgwyl ymateb oddi wrth Adnoddau Naturiol Cymru. Roedd safle Home Bargains yn symud ymlaen.

**133. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Green Fingers Garden Centre - arddangosfeydd blodau (2015)<br>(Cofnod rhif 228 dyddiedig 23.3.15 yn cyfeirio)<br>(Rhif siec 005763) | - | £408.00 |
| (2) | Blachere Illuminations - llogi goleuadau Nadolig blwyddyn gyntaf<br>(£7,351.26); profi bolltiai dolen (£1,320); cludiant (£270)<br>(Cofnod 63(3) dyddiedig 27.7.15 yn cyfeirio).<br>(Rhif siec 005764) | - | £8,941.26 |
| (3) | Blachere Illuminations - goleuadau newydd i'r llen olau<br>(Cofnod 63(3) dyddiedig 27.7.15 yn cyfeirio)<br>(Rhif siec 005765) | - | £2,746.80 |
| (4) | Clerc y Dref - costau teithio - Conwy<br>(Rhif siec 005766) | - | £22.60 |
| (5) | Catalyst Systems - storfa date diogel oddi ar y safle (Hydref)<br>(Rhif siec 005767) | - | £18.05 |
| (6) | Zen Internet Ltd - darpariaeth ADSL (Rhagfyr)<br>(Rhif siec 005768) | - | £18.37 |
| (7) | Ernest Martin - agor a chloi giât gardd E P Garden (Tachwedd)<br>(Rhif siec 005769) | - | £60.00 |

Cyfanswm taliadau: £12,215.08

2. Materion ariannol eraill:

**134. Llywodraeth Cymru** - diweddariad ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Cyfeiriodd clerc y dref at y ddogfen a dderbyniwyd a'i dosbarthu. Nodwyd y ddogfen

**135. Dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r cyngor llawn i drafod cyllideb 2016/2017.** Cytunwyd i gynnal y cyfarfod ar nos Lun Ionawr 18fed 2016 am 6.30.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.38 o'r gloch.

Arwyddwyd:......................................................... (cadeirydd)

Dyddiad:.........................